

Turnitin Grademark



Sut ydw i'n cyflwyno gwaith trwy Turnitin?

Dod o hyd i'ch man cyflwyno.

I gyflwyno eich aseiniad ar Turnitin bydd angen i chi fewngofnodi ar Blackboard.

- Dewiswch y modiwl y cafodd yr aseiniad ei osod ar ei gyfer o'ch rhestr modiwlau cyfredol.
- Gwasgwch ar y tab "**Assessments**" (neu deitl tebyg, mae'r teitl go iawn yn dibynnu ar y Coleg) ar y ddewislen ar yr ochr chwith.
- Dewch o hyd i'r aseiniad cywir o'r rhestr ar y dudalen a gwasgwch ar "**View/Complete.**"



Lanlwytho a chyflwyno

- Ar ôl i chi wneud hyn, byddwch chi'n dod o hyd i'ch mewnlwch aseiniadau.
- Gwasgwch ar y botwm "**Submit**" sydd wedi'i uwcholeuo mewn glas.
- Dylai eich manylion ymddangos yn y meysydd teitl ar y dudalen lanlwytho. Bydd angen i chi roi teitl ar y darn i'w gyflwyno. Mae'r mwyafrif o Golegau yn mynnu ar y teitl yn cael ei ragflaenu gan eich rhif myfyriwr...e.e. "67344 dyma fy nhraethawd".
- Mae dewis o leoedd y bydd Turnitin yn caniatáu i chi bori iddynt am eich ffeil aseiniad wedi'i chadw. Gall hyn fod yn uniongyrchol o'ch cyfrifiadur, cyfrif Dropbox neu storfa ffeiliau ar Google.
- Porwch i'r ffeil briodol, ei huwcholeuo, wedyn gwasgwch ar y botwm "**Upload**" sydd wedi'i uwcholeuo mewn glas.
- Bydd hyn yn lanlwytho'r ffeil ac yn creu ffeil ragolygu fach ar y sgrin. **NODER**; nid yw'ch aseiniad wedi'i gyflwyno hyd yn hyn.

Submit: **Single File Upload**

First name
Stuart (STUDENT)

Last name
Henderson

Submission title
65432 how to submit essay

What can I submit?

Choose the file you want to upload to TurnitinUK:

- Choose from this computer
- Choose from Dropbox
- Choose from Google Drive

Upload Cancel

Mae angen y teitl cyflwyno yn cynnwys eich Rhif Myfyriwr os oes angen

Tri dewis o le y gellwch chi lanlwytho eich aseiniad

Gwasgwch ar "**upload**" unwaith eich bod wedi dewis eich ffeil. **Noder**: nid yw hyn yn cwblhau'r broses gyflwyno.


Pan fyddwch yn **sicr** eich bod wedi lanlwytho'r ffeil gywir, cwblhewch eich proses gyflwyno trwy wasgu ar y botwm "**Confirm**" neu "**Upload**" sydd wedi'u uwcholeuo mewn glas.

Os ydych chi wedi dewis y ffeil anghywir, gwasgwch ar “cancel” a phorwch am y ffeil gywir.

Sut oes modd imi brofi fy mod wedi cyflwyno gwaith?

Tystiolaeth o’ch Cyflwyniad, Rhifau Prawf Cyflwyno i Turnitin a derbynebau digidol.

Ar ôl i chi gyflwyno eich aseiniad, byddwch chi’n dod o hyd i dudalen derbynneb cadarnhau; ar waelod y dderbynneb (efallai y bydd angen i chi sgrilio i lawr i’w weld) dylech chi weld eich Rhif Prawf Cyflwyno. Rhif 8 digit yw hwn. Dylech chi nodi’r rhif hwn oherwydd dyma’r unig dystiolaeth fydd gennych chi eich bod wedi cyflwyno eich gwaith ar yr adeg hon. Gwnewch nodyn ohono, neu tynnwch sgrin lun o’r dudalen a chadw hynny.



Congratulations - your submission is complete! This is your digital receipt. You can print a copy of this receipt from within the Document Viewer.

Author: Stuart (STUDENT) Henderson

Assignment title: title

Submission title: 65432 how to submit essay

File name: ee po fav album.docx

File size: 97.37K

Page count: 3

Word count: 366

Character count: 1713

Submission date: 02-Feb-2015 4:48 PM GMT

Submission ID: 40274813

Gwnewch nodyn o’ch Rhif Prawf Cyflwyno. Gellwch chi ei ysgrifennu, neu dynnu sgrin lun o’r dderbynneb a chadw hynny.

Er y dylech chi dderbyn derbynneb ar e-bost gan y system, os yw hyn yn hwyr neu os nad yw’n ymddangos, byddai angen eich rhif papur arnoch o hyd pe bai angen i chi ddangos tystiolaeth eich bod wedi cyflwyno eich gwaith.

Os nad yw derbynneb yn ymddangos ar y sgrin, ni ddylech chi gymryd yn ganiataol fod eich cyflwyniad wedi’i dderbyn. Os ydych chi’n credu eich bod wedi profi trafferth, cysylltwch â chymorth TG ym mhrif neuadd gatalog y llyfrgell am gymorth pellach. Os nad oes modd i chi fynd yno, ffoniwch estyniad 5060, neu 295060 os ydych chi oddi ar y campws.

Gwasgwch ar “**Return to assignment list**” a gwasgwch ar “**view**”, bydd ffenestr newydd yn ymddangos, yn dangos eich aseiniad yn y syllwr dogfennau. Ar far gwaelod y ffenestr hon, sylwch chi ar eicon argraffydd, trwy wasgu ar hwn bydd dewis o dri opsiwn yn ymddangos, bydd angen i chi ddewis “**Download PDF of Digital Receipt for printing**”.

Dewiswch a ydych chi am agor neu gadw’r ffeil. I’w hargraffu, agorwch y ffeil a gwasgwch ar yr eicon argraffu ar ben uchaf y sgrin wedyn gwasgwch ar OK yn y blwch cais argraffu i anfon eich derbynneb i’r peiriant argraffu.